**DYLAN J. WILLIAMS** BA (Hons), MSc, MA, M.R.T.P.I
Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd
Head of Service Regulation and Economic Development

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Canolfan Fusnes Môn • Anglesey Business Centre
Parc Busnes Bryn Cefni • Bryn Cefni Business Park
LLANGEFNI
Ynys Môn • Isle of Anglesey
LL77 7XA

ffôn / tel: (01248) 752431/2435
ffacs / fax: (01248) 752192

Gofynnwch am / Please ask for: Dylan Williams
E-bost / Email: DylanJWilliams@anglesey.gov.uk
Ein Cyf / Our Ref: YM / EN010007
Eich Cyf / Your Ref: EN010007

Dyddiad / Date: 3.12..2018

Annwyl Kay,

**Archwiliad GCD Wylfa Newydd EN010007.**

**Sylwadau ar y dogfennau cais diwygiedig mewn ymateb i gyngor Adran 51**

**Cyflwyniad Terfyn Amser 2.**

Gweler drosodd, os gwelwch yn dda, sylwadau'r Cyngor mewn perthynas â'r uchod.

Yn gywir,

Dear Kay,

**Wylfa Newydd DCO Examination EN010007.**

**Comments on updated application documents in response to Section 51 advice.**

**Deadline 2 Submission.**

Please find attached the Council's representation in respect of the above..

Yours sincerely,

[redacted]

**Dylan J. Williams**

**Pennaeth Gwasanaeth**
**Rheoleiddio a Datblygu Economaidd**

**Head of Service**
**Regulation and Economic Development**

**Rheoleiddio a Datblygu Economaidd**

**Archwiliad GCD Wylfa Newydd EN010007**

**Sylwadau ar y cais a ddiweddarwyd mewn**

**ymateb i gyngor Adran 51**

**Cyflwyniad Terfyn Amser 2**

**Paratowyd gan: Swyddfa Rheoli'r Rhaglen Ynys Ynni**

**3ydd Rhagfyr, 2018**

## Sylwadau ar y dogfennau a ddiweddarwyd mewn ymateb i Gyngor Adran 51

**Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd**

Mae CSYM yn cyfeirio’r Awdurdod Archwilio i ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru ar y mater hwn.

**Cynlluniau Tir**

Mae’r cynlluniau tir diweddaredig sydd wedi cael eu cyflwyno yn rhoi sylw i bryderon PINS gan gynnwys:

- Yr Esboniad sydd ynghlwm wrth y cynlluniau.
- Rhestru tirnodau dan y disgrifiad o’r tir.
- Defnyddio mewnosodiadau (‘inserts’) ar gyfer plotiau sy’n anodd i’w dehongli.
- Esboniadau diwygiedig fel y gellir gwahanu llinellau dotiau, llinellau toredig a llinellau solet a’r gallu yn gyffredinol i adnabod yr holl blotiau’n glir gyda chyfeirnod plot.

Ymddengys bod y cyfan o’r materion uchod wedi derbyn sylw boddhaol ac o ran y plotiau hynny y mae gan CSYM ddiddordeb penodol ynddynt, maent wedi cael eu hystyried yn fanwl. O ran cywirdeb y cynlluniau eu hunain mewn perthynas â ffiniau a pherchenogaeth buddion, mae hyn yn cael ei adolygu ar hyn o bryd a chaiff ei gadarnhau ar wahân.

**Adran 42.1(a) Cyrff Dynodedig**

Mae CSYM yn nodi’r cyrff ychwanegol nad ymgynghorwyd â nhw neu y dylid bod wedi ymgynghori â nhw ar sail ragofalol dan Adran 42 a’r sefydliadau anstatudol eraill a fydd efallai’n cael eu heffeithio gan y cynigion. Nid yw CSYM yn anghytuno gydag unrhyw un o’r awgrymiadau hynny ac nid yw’n cynnig unrhyw gyrff eraill y dylid, yn ei farn ef, fod wedi ymgynghori â nhw.

**Memorandwm Esboniadol**

Mae’r Memorandwm Esboniadol wedi cael ei ddiwygio ac mae CSYM yn fodlon y cafwyd cyfiawnhad digonol o’r rhesymau dros ddibynnu ar Ddarpariaethau Enghreifftiol ac a yw’r darpariaethau hynny’n parhau i fod yn berthnasol ac yn briodol.

Nid yw sylwadau CSYM ar y Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft beth bynnag a ddigwydd, yn cyfyngu eu hunain oherwydd unrhyw gysondeb rhwng y GCD drafft a’r darpariaethau enghreifftiol blaenorol.

DIWEDD